OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 949 (Cy.135) (C.37)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - - 23 Mawrth2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 44(3) a (5) o Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

Diwrnodau penodedig

2.—(1) 28 Mawrth 2011 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym o ran Cymru—

(a) adran 15 (dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal ac eraill), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**2**);

(b) adran 19 (cymorth i blant sy'n cael eu lletya);

(c) adran 29 (hysbysu am faterion sy'n ymwneud â phersonau sy'n rhedeg neu'n rheoli cartrefi plant etc), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**3**); a

(ch) adran 42 ac Atodlen 4 (diddymiadau) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol—

(i) diddymu'r darpariaethau yn adran 104 o Ddeddf 1989 a bennir yn yr Atodlen honno, a

(ii) diddymu'r darpariaethau yn adran 21 o Ddeddf 2000(**4**) a bennir yn yr Atodlen honno.

(**1**) 2008 p.23.
(**2**) Cafodd adran 15 ei chychwyn yn rhannol gan erthygl 2(ch) o Orchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2010 (O.S.2010/1329 (Cy.112) (C.81)) ("Gorchymyn Cychwyn Rhif 4").
(**3**) Cafodd adran 29 ei chychwyn yn rhannol gan erthygl 2(i) o Orchymyn Cychwyn Rhif 4.
(**4**) Diffinnir "the 2000 Act" yn adran 41 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 i olygu Deddf Safonau Gofal 2000 (p.14).

(2) 1 Medi 2011 yw'r diwrnod penodedig i adran 20 o'r Ddeddf (aelod dynodedig o'r staff mewn ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol) ddod i rym o ran Cymru, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**5**).

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

23 Mawrth2011

(**5**) Cafodd adran 20 ei chychwyn yn rhannol gan erthygl 2(dd) o Orchymyn Cychwyn Rhif 4.